| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | **Cydlynydd Creadigol : Prosiectau** |
| **Lleoliad** | Galeri Caernarfon |
| **Math Swydd** | Parhaol. Rhan Amser (Oriau i'w trafod) |
| **Cyflog** | £27,000 - £29,500 (pro-rata) |
| **Yn atebol i** | Cyfarwyddwr Artistig |
| **Prif Gyfrifoldebau** | Arwain ar gynllunio, rheoli a darparu prosiectau creadigol – gan gynnwys Sbarc, Lleisiau Llawen, Cain, Symud ac unrhyw weithdai sy'n cael eu hystyried yn rhai ymgysylltu, fel sy'n briodol gydag ymrwymiad i hyrwyddo amrywiaeth, cynrychiolaeth a hygyrchedd o fewn popeth sy'n gysylltiedig â'r rôl.<br><br>Rheoli amserlenni, cyllidebau, cytundebau a threfniadau ymarferol sy'n cynnwys paratoi adroddiadau, monitro a gwerthuso prosiectau yn ôl yr angen. Sicrhau bod prosiectau'n bodloni amodau cyllido a nodau strategol.<br><br>Cydweithio gydag artistiaid, partneriaid, gweithwyr llawrydd a chyllidwyr.<br><br>Sefydlu a datblygu perthnasau cadarnhaol gydag unigolion, grwpiau, sefydliadau, cyrff cyhoeddus a phreifat yng Ngwynedd a thu hwnt.<br><br>Cefnogi'r Cyfarwyddwr Artistig a'r Rheolwr Celf a Llesiant i wireddu gweledigaeth artistig Galeri a datblygu strategaeth gyfranogi ac ymgysylltu sy'n cyd-fynd ag amcanion ehangach y sefydliad.<br><br>Gan fod Galeri'n ganolfan greadigol a bywiog, o bryd i'w gilydd bydd gofyn i chi fod yn bresennol yn ystod gweithgareddau neu brosiectau y tu hwnt i oriau gwaith arferol. |
| **Sgiliau / Cymwesterau Hanfodol** | Gradd, gymhwyster cyfatebol, neu brofiad o weithio yn y maes prosiectau creadigol neu gymunedol sy'n cynnwys rheoli adnoddau a datrys problemau wrth iddynt godi.<br><br>Sgiliau cynllunio cryf gyda'r gallu i weithio'n hyblyg, rheoli llwyth gwaith, blaenoriaethu tasgau a chyrraedd targedau amser. |

| | |
|---|---|
| | Sgiliau cyfathrebu rhagorol yn y Gymraeg a'r Saesneg (llafar ac ysgrifenedig), gyda gallu i gyfathrebu'n hyderus gyda chymunedau, partneriaid ac artistiaid.<br><br>Sgiliau gweinyddol a TG o safon uchel, gan gynnwys trefnu amserlenni, cytundebau a dogfennau prosiect.<br><br>Dealltwriaeth o'r sector gelfyddydol yng Nghymru. Dealltwriaeth a phrofiad o fonitro ac adrodd ar grantiau, gan gynnwys casglu data, gwerthuso prosiectau ac adrodd i arianwyr sy'n golygu drafftio cyllideb, rheoli a monitro'r gyllideb.<br><br>Hyder, creadigrwydd a'r gallu i gyfrannu at weledigaeth Galeri Caernarfon Cyf, gan ychwanegu syniadau ac egni cadarnhaol. Agwedd gadarnhaol a hunan-gymhelliant uchel, gyda'r gallu i weithio'n annibynnol a chymryd cyfrifoldeb dros brosiectau. |
| **Sgiliau / Cymwysterau Dymunol** | Brwdfrydedd tuag at genhadaeth a gweledigaeth Galeri Caernarfon Cyf, ac awydd i gyfrannu at dwf a datblygiad y sefydliad.<br>Profiad blaenorol o weithio mewn theatr, cwmni cynhyrchu creadigol neu leoliad celfyddydol, gyda dealltwriaeth o lif gwaith artistig.<br>Profiad o gefnogi neu lywio prosesau artistig, megis datblygu gwaith newydd, gweithdai neu brosiectau cyfranogol.<br>Profiad o negydu a dealltwriaeth o brosesau cytundebu, yn enwedig mewn cyd-destun creadigol neu gymunedol.<br>Profiad o gefnogi gweithwyr llawrydd ac artistiaid mewn modd strwythuredig. |
| **Amodau Gwaith** | Mae'r oriau gwaith yn hyblyg, ond ar adegau bydd angen gweithio oriau anghymdeithasol yn ddibynnol ar ofynion y prosiect. |
| **Proses Ymgeisio** | Ffurflen Gais a C.V wedi'w anfon at swyddi@galericaernarfon.com |
| **Dyddiad cau** | 9yb ar 8fed o Fai, 2026 |
| **Gwybodaeth Gyswllt** | Mari Elen, Cyfarwyddwr Artistig<br>mari.elen@galericaernarfon.com |